OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 14

# Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2018

**Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013**

**17.** Ym mharagraff 28 (didyniadau annibynyddion: pensiynwyr a phersonau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yn is-baragraff (1)(a), yn lle "£12.70" rhodder "£13.10";

(b) yn is-baragraff (1)(b), yn lle "£4.20" rhodder "£4.35";

(c) yn is-baragraff (2)(a), yn lle "£200.00" rhodder "£205.00";

(d) yn is-baragraff (2)(b) yn lle "£200.00", "£346.00" ac "£8.40" rhodder "£205.00", "£355.00" ac "£8.70" yn y drefn honno;

(e) yn is-baragraff (2)(c) yn lle "£346.00", "£430.00" a "£10.60" rhodder "£355.00", "£440.00" a "£10.95" yn y drefn honno;

(f) yn is-baragraff (8)(a) ar ôl "lwfans cyflogaeth a chymorth ar sail incwm" mewnosoder "a phan na fo'r annibynnydd yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith";

(g) yn is-baragraff (9)(b), ar ôl "Sefydliad Caxton" mewnosoder ", cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester";

(h) yn is-baragraff (9)(c) yn lle "." rhodder "; a";

(i) ar ôl is-baragraff (9)(c) mewnosoder—

"(d) unrhyw daliad a wneir o dan ymddiriedolaeth, neu gan ymddiriedolaeth, a sefydlir at ddiben rhoi cymorth a chynhorthwy i bersonau anabl yr achoswyd eu hanableddau gan y ffaith bod eu mamau wedi cymryd cymysgedd a oedd yn cynnwys y cyffur o'r enw Thalidomid yn ystod eu beichiogrwydd, ac a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol."